Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Cronfa Datblygu Strategol Ôl-16 - ceisiadau llwyddiannus

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 30 Ionawr 2026 (wedi'i ddiweddaru 06 Chwefror 2026) |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/03 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Prifathrawon sefydliadau addysg bellach<br>Cyfarwyddwyr Addysg awdurdodau lleol<br>Deiliaid contractau prentisiaeth wedi'u comisiynu |
| **Ymatebwch erbyn:** | **Adroddiad interim (Atodiad A):** 01 Mai 2026<br>**Adroddiad terfynol (Atodiad B):** 01 Tachwedd 2026 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Gareth Lanagan \| BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru |


### Crynodeb

Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu'r ceisiadau llwyddiannus am gyllid o'r Gronfa Datblygu Strategol Ôl-16.

Mae £4.75 miliwn ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 a chawsom 48 o geisiadau a oedd yn werth cyfanswm o fwy na £14 miliwn.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn amlinellu'r ceisiadau llwyddiannus am gyllid o'r Gronfa Datblygu Strategol Ôl-16.

2. Mae £4.75 miliwn ar gael ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 a chawsom 48 o geisiadau a oedd yn werth cyfanswm o fwy na £14 miliwn.

3. Cyfanswm gwerth y ceisiadau llwyddiannus yw £4.92 miliwn a'r rhagdybiaeth yw y ceir tanwariant o'r 12 cais llwyddiannus. Mae Bwrdd Medr wedi cymeradwyo risg o £177k.

## Cefndir

4. Diben y cyllid hwn yw annog mwy o gydweithio yn y sector addysg drydyddol. Mae'r broses gwneud cais wedi galluogi Medr i gasglu rhagor o wybodaeth am yr angen am fuddsoddi strategol ym mhob rhan o'r sector.

5. Roedd y Gronfa yn chwilio am geisiadau i fyddai'n mynd i'r afael â'r canlynol:

    - Cydweithio – prosiectau sy'n dangos cydweithio ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol rhwng o leiaf ddau sefydliad.
    - Newydd – prosiectau sy'n cynnwys gweithgarwch newydd ac nad yw'r un rhan ohonynt wedi dechrau'n barod.
    - Strategol – prosiectau sy'n gysylltiedig ag uchelgeisiau strategol Medr.

## Ceisiadau a ddaeth i law

6. Nodwyd yn y cyhoeddiad gwreiddiol ei bod yn rhaid i'r partner arweiniol sy'n cyflwyno'r cais fod yn brifysgol, yn sefydliadau addysg bellach, yn awdurdod lleol neu'n ddarparwr prentisiaethau a gyllidir yn uniongyrchol gan Medr. Gall sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru gael eu cynnwys fel partneriaid cydweithredol. O'r 48 o geisiadau a ddaeth i law, cawsom geisiadau gan bartneriaid arweiniol o bob rhan o'r sector addysg drydyddol a oedd yn cynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau partner, megis cyflogwyr, undebau llafur a phartneriaethau sgiliau rhanbarthol.

7. Sefydlodd Medr banel i sgorio'r ceisiadau. Gwnaeth y system sgorio ystyried sut y byddai'r prosiectau'n mynd i'r afael â'r elfennau canlynol:

    i) Cydweithio rhwng darparwyr,
    ii) Torri tir newydd,
    iii) Nodau strategol Medr,
    iv) Strwythurau llywodraethu,
    v) Tystiolaeth o angen,
    vi) Amserlenni arfaethedig,
    vii) Cynnwys dysgwyr ac undebau llafur,

viii) Costau arfaethedig,

ix) Deilliannau a phethau i'w cyflawni,

x) Cynaliadwyedd.

**Ceisiadau llwyddiannus**

8. Mae'r ceisiadau llwyddiannus fel a ganlyn:

| Sefydliad Arweiniol | Partneriaid | Prosiect | Swm y cais |
|---|---|---|---|
| Coleg Cambria | Prifysgol Wrecsam | **Hyb Sgiliau Uwch Partneriaeth Sgiliau Gogledd-ddwyrain Cymru –** Bwriedir i'r Hyb Sgiliau Uwch sicrhau cyflenwad sgiliau integredig o ddarpariaeth cyrsiau byr a fydd yn amrywio o hyfforddiant galwedigaethol Lefel 2 i gymwysterau ôl-raddedig Lefel 7, gan ganolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â phrinder sgiliau rhanbarthol difrifol mewn meysydd fel technolegau digidol, sgiliau gwyrdd a thechnolegau sy'n datblygu, yn ogystal â gweithgynhyrchu uwch ochr yn ochr â gofynion sgiliau'r sector cyhoeddus a diwydiant yn ehangach. | £257,100 |
| Grŵp Colegau NPTC | Coleg Sir Gâr, Coleg Gŵyr Abertawe, Coleg Sir Benfro, partneriaid ym maes dysgu seiliedig ar waith ac mewn diwydiant | **Partneriaeth y Porthladd Rhydd Celtaidd: Trawsnewid y Cwricwlwm yn Rhanbarthol ar gyfer Ynni Glân –** Mae'r cais hwn yn cynnig prosiect cydweithredol i drawsnewid y cwricwlwm a fydd yn cynnwys pedwar coleg addysg bellach ac a gaiff ei gydgysylltu gan Gyfarwyddwr Sgiliau'r Porthladd Rhydd. | £550,000 |
| Cyngor Caerdydd | Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Catholig Dewi Sant a Chyngor Bro Morgannwg | **Datgloi Potensial Ôl-16: Sicrhau Mynediad Teg drwy Ddarpariaeth Gydweithredol Ledled Caerdydd a'r Fro** – Bydd y prosiect hwn yn datblygu cynnig addysg ôl-16 unedig drwy gyflawni ar y cyd gan nifer o bartneriaid yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. | £566,000 |

| Sefydliad Arweiniol | Partneriaid | Prosiect | Swm y cais |
|---|---|---|---|
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | Coleg Penybont ac ALS Training | **Llwybrau Addysg Drydyddol Hyblyg ar gyfer Uwchsgilio ac Ailsgilio Dysgwyr yng Nghymru** – Bydd y prosiect hwn yn sefydlu consortiwm addysg drydyddol dan arweiniad Prifysgol Metropolitan Caerdydd mewn partneriaeth â Choleg Penybont ac ALS Training i dreialu'r gwaith o gyflwyno microgymwysterau pentyradwy ar Lefel 4 a Lefel 5 ar gyfer y diwydiant technoleg ariannol a'r diwydiannau creadigol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ei nod fydd atgyfnerthu gallu'r system addysg drydyddol i ymateb yn hyblyg i ofynion diwydiant a dysgwyr, gan sicrhau y gall dysgwyr o bob oed fanteisio ar gyfleoedd perthnasol o ansawdd da i ddatblygu sgiliau gan ddefnyddio modiwlau gradd-brentisiaethau a modiwlau annibynnol sydd eisoes yn bodoli. | £151,572 |
| Prifysgol De Cymru | Coleg Penybont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg y Cymoedd, Coleg Gwent, Y Coleg Merthyr Tudful a Chynghrair Sgrin Cymru | **Sgiliau'r Dyfodol: Mynd i'r Afael â Bylchau o ran Sgiliau a Phrinder Llafur mewn Meysydd Cyflogaeth Allweddol** – Mae prosiect Sgiliau'r Dyfodol, sef prosiect cydweithredol newydd a fydd yn cynnwys chwe sefydliad a nifer o asiantaethau, yn cynnig dull cydlynol ac integredig o ennyn diddordeb darpar ddysgwyr mewn pynciau â phrinder a meysydd cyflogaeth sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ymchwil ac arloesi ac yn eu hategu. | £595,000 |
| Prifysgol Wrecsam | Prifysgol Bangor, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai | **Llwybrau Llwyddiant** – Mae'r prosiect newydd hwn yn cynnig y gallu i dyfu yn unol â'r anghenion, gan wella cyfraddau cyfranogiad a chynnydd dysgwyr mewn addysg bellach ac addysg uwch drwy hyrwyddo gyrfaoedd a chyfleoedd addysgol i ddysgwyr. | £803,511 |

| Sefydliad Arweiniol | Partneriaid | Prosiect | Swm y cais |
|---|---|---|---|
| Coleg Catholig Dewi Sant | Archesgobaeth Caerdydd-Mynyw a Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig | **Y Coleg Catholig Cenedlaethol (enw gweithredol)** – Bydd y prosiect arfaethedig yn ffurfioli strwythur y Coleg Cenedlaethol fel rhwydwaith cydweithredol o ddarparwyr addysg ôl-16 Gatholig, dan arweiniad Coleg Dewi Sant, ac yn ehangu mynediad at sefydliadau nad ydynt yn Gatholig a sefydliadau gwledig, yn enwedig y rhai â dewis neu leoedd cyfyngedig o ran cymwysterau Safon Uwch. Bydd yn atgyfnerthu prosesau sicrhau ansawdd ym mhob rhan o ddarpariaeth addysg ôl-16 Gatholig drwy ddysgu proffesiynol a rennir, adolygu gan gymheiriaid, a chynllunio'r cwricwlwm ar y cyd. Bydd hyn yn cynnwys creu fframwaith sicrhau ansawdd trosfwaol a fydd yn canolbwyntio ar safonau academaidd a chysoni'r dull strategol hwn â thegwch, cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd y prosiect yn datblygu addysgeg ar-lein arbennig a fydd yn helpu athrawon i gynnal gweithgareddau dysgu digidol o ansawdd da. | £225,000 |
| Coleg Gŵyr Abertawe | Coleg Sir Benfro, Coleg Gwent, Stable a Microsoft | **Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Digidol –** Bydd y prosiect yn hyfforddi 15 o aelodau o staff addysgu gwahanol bartneriaid i gyflwyno cymwysterau technoleg ddigidol a gydnabyddir gan ddiwydiant. Y bwriad yw gwreiddio modiwlau newydd wedi'u hardystio gan Microsoft mewn tri o feysydd y cwricwlwm erbyn mis Gorffennaf 2026. Bydd y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Sgiliau Digidol yn datblygu ac yn cynnal hyb cydweithio digidol byw. Bydd hyn yn helpu i wella setiau sgiliau | £310,324 |

| Sefydliad Arweiniol | Partneriaid | Prosiect | Swm y cais |
|---|---|---|---|
| | | addysgu a chyflwyno'r cwricwlwm er mwyn bodloni'r gofynion o fewn swyddi a hwylusir gan dechnoleg a'r gofynion mewn diwydiant, a hwyluso partneriaethau cryfach â chyflogwyr mewn diwydiannau ledled Cymru. | |
| Y Brifysgol Agored yng Nghymru | • Y Brifysgol Agored yng Nghymru<br>• Y Sefydliad Dysgu a Gwaith<br>• Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>• Cymdeithas Dai Trivallis<br>• Addysg Oedolion Cymru<br>• ALS Training Ltd<br>• Prifysgol De Cymru<br>• TUC Cymru | **Llwybrau** – Gan ddefnyddio model gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith, bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyd-ddylunio llwybr ehangu cyfranogiad sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, a'i nod fydd dangos effeithiolrwydd model asesu ac atgyfeirio a fydd yn gallu tyfu'n unol â'r anghenion ac a fydd yn canolbwyntio ar y dysgwr. | £359,850 |
| Coleg Gwent | Y Brifysgol Agored | **Gain4Growth Cymru: Grymuso Dysgwyr, Gwella Deilliannau** – Bydd y prosiect hwn yn adeiladu ar brosiect llwyddiannus gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar arferion gorau ym maes arloesi, ac mae'n ceisio cyllid i wella a threialu rhaglen gydweithredol ar gyfer Cymru gyfan i wella cynnydd addysgol, cymorth academaidd a gwaith datblygu sgiliau ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru ar raglenni gradd a gyflwynir mewn amgylcheddau addysg uwch mewn colegau. Bydd yn creu systemau cymorth | £201,600 |

| Sefydliad Arweiniol | Partneriaid | Prosiect | Swm y cais |
|---|---|---|---|
| | | cydgysylltiedig, adnoddau a rennir, a chyfleoedd i ddarparwyr ddysgu oddi wrth ei gilydd a fydd yn mynd y tu hwnt i ddarpariaeth safonol, gan sicrhau y bydd dysgwyr mewn amgylcheddau addysg uwch mewn colegau yn cael mynediad teg at gyfleoedd cyfoethogi academaidd, cymorth i fod yn barod ar gyfer gyrfaoedd, a llwybrau datblygu personol. | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Nifer o Ysgolion yng Nghymru | **Cyfleoedd+, Arweinyddiaeth Strategol ar gyfer Addysg Ôl-16 Cyfrwng Cymraeg ledled Ardaloedd Cynghorau Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr** – Bydd y prosiect yn gwella arweinyddiaeth strategol ym maes addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg ac yn gwella dewis a phrofiad i ddysgwyr yn fawr. Bydd yn meithrin gallu a chynaliadwyedd drwy fynd ati mewn modd strategol a chydweithredol i sicrhau a lledaenu ymarfer effeithiol ac effeithlon a dysgu proffesiynol wedi'i dargedu. Bydd y prosiect yn datblygu modelau cwricwlwm ôl-16 o ansawdd da a fydd yn gallu tyfu yn unol â'r anghenion ac a fydd yn ymatebol i ofynion a dewis dysgwyr, ac yn atgyfnerthu llwybrau dilyniant, gan gysoni ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch, a diwydiant. | £375,000 |
| Prifysgol De Cymru | Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor, Prifysgol Wrecsam, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol | **Achos busnes ar gyfer datblygu cydwasanaeth caffael yn y sector addysg uwch yng Nghymru a sefydlu endid cydwasanaeth cysylltiedig –** Mae angen cyllid ar y prosiect hwn er mwyn datblygu achos busnes manwl ar gyfer cydwasanaeth caffael yn y sector addysg bellach yng Nghymru. | £530,000 |

| Sefydliad Arweiniol | Partneriaid | Prosiect | Swm y cais |
|---|---|---|---|
| | Metroplitan Caerdydd, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru | Bydd yr achos busnes yn archwilio'r broses o sefydlu cyfrwng ar gyfer cydwasanaeth yn y sector addysg uwch, a fydd yn blaenoriaethu cyfleoedd caffael ar y cyd i ddechrau, ond gan gyflwyno cyfle i wasanaethau pellach ddilyn. | |
| | | | **£4,924,957** |

9. Mae'r ceisiadau llwyddiannus yn werth cyfanswm o £4.92 miliwn.

**Monitro**

10. Bydd yn ofynnol cwblhau adroddiad prosiect interim hanner ffordd drwy bob prosiect ac adroddiad prosiect terfynol ar y diwedd, gan ddefnyddio'r templedi yn **Atodiadau A** a **B**.

11. Un o'r amodau cyllido yw bod disgwyl i wersi a ddysgir o brosiectau gael eu rhannu. O'r gwaith monitro a nodir yn **Atodiadau A** a **B**, byddwn yn canfod gwersi a ddysgwyd ac yn eu rhannu drwy'r rhwydwaith cyfan. Yn ychwanegol at hynny, byddem yn croesawu ceisiadau ar gyfer prosiectau sy'n nodi sut y byddech yn lledaenu'r gwersi a ddysgir gennych.

**Amserlen**

12. Amserlen ar gyfer y prosiectau:

| | |
|---|---|
| **Taliad** | **60%: 20 Chwefror 2026**<br>**40%: 20 Ebrill 2026** |
| **Yr holl gyllid wedi'i ymrwymo** | **31 Awst 2026** |
| **Ffurflen werthuso hanner ffordd** | **01 Mai 2026** |
| **Ffurflen werthuso derfynol** | **01 Tachwedd 2026** |

**Rhagor o wybodaeth**

13. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**